| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Chwefror 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Hugh Evans - Arweinydd<br>Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith |
| **Teitl:** | **Amcanion Lles CSDd** |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad yn cynnig chwech o amcanion lles i'w mabwysiadu gan y Cyngor ac mae'n nodi'r broses ar gyfer eu hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol nesaf.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu fod yr holl sefydliadau sector cyhoeddus yn nodi a chyhoeddi cyfres o Amcanion Lles erbyn 31 Mawrth 2017.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**
Fod yr amcanion Lles sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

4. **Manylion yr adroddiad**
Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn mynnu fod yr holl sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, yn cytuno ar ac yn cyhoeddi eu Hamcanion Lles. Y bwriad yw y bydd rhain yn nodi pa gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gyfrannu at y Saith Amcan a ymgorfforir yn y Ddeddf.

Mae rhai materion i'w hystyried yn ymwneud â'r broses. Tra bydd gosod ein hamcanion Lles yn anochel yn gorgyffwrdd â dyletswydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Lles, nid ydynt wedi eu cysylltu'n ffurfiol. Nid yw'r broses hon chwaith yn cysylltu'n ffurfiol â rheidrwydd y Cyngor i gyhoeddi amcanion gwella fel gofyniad i ddeddfwriaeth gynharach, ond sy'n parhau yn weithredol (Mesur Llywodraeth Leol 2009). Mae Cyngor Sir Ddinbych wastad wedi ei gyhoeddi ar ffurf ein Cynllun Corfforaethol. Felly rydym yn y sefyllfa o fod angen nodi a chyhoeddi dau set o amcanion ar gyfer y Cyngor, yn ogystal â chytuno ar ein cyfraniad i drydedd set fel partneriaid yn y BGC.

Gall hyn fod yn ddryslyd i'n dinasyddion, felly mewn ymgais i wneud pethau'n symlach, rydym hyd yma wedi dilyn llwybr o osod a chyfuno'r broses o nodi'r amcanion hyn. Felly, oherwydd y ffordd yr ydym wedi strwythuro Sgwrs y Sir a'n dadansoddiad o anghenion (yr Asesiad Lles), gellir defnyddio'r ddau beth fel ffynhonnell ddata ar gyfer y tair set o amcanion: y Cynllun Corfforaethol/Amcanion Gwella; Amcanion Lles Cyngor Sir Ddinbych a Chynllun Lles y BGC.

Mae chwe maes o flaenoriaeth posib wedi datblygu o'r broses hon yn y cyfnod hyd at ddiwedd Tachwedd 2016 ac maent wedi eu cyfeirio yn ôl i'r cyhoedd yn ystod ail gam

Sgwrs y Sir, sydd wedi gweithredu hyd ddiwedd Ionawr 2017. Ymatebodd dros 1500 o ddinasyddion yn ystod y cyfnod hwn, gan gefnogi'r holl flaenoriaethau craidd a nodwyd yng ngham 1 a gosod safleoedd cymharol iddynt (gweler isod). Mae gennym nawr syniad eithaf clir o'r hyn y cred ein cymuned ddylai fod yn graidd i'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod cynllunio nesaf, wedi ei seilio ar ymgysylltu eang â'r cyhoedd, dadansoddi data ac asesiad trylwyr o angen.

Dyma'r chwe blaenoriaeth (wedi eu rhestru yn ôl eu trefn):

1. Mae Sir Ddinbych yn fan lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a lle bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

2. Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau trafnidiaeth da.

3. Mae yna amgylchedd deniadol a warchodir sy'n cefnogi lles cymunedau a ffyniant economaidd.

4. Gall pobl fyw bywydau annibynnol a chyflawn mewn cymunedau cryf, gofalgar, diogel a gwydn.

5. Mae'r Cyngor a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn heriau; gan ddyfeisio a darparu datrysiadau ar y cyd.

6. Mae yna ddigwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan greu cymunedau gweithgar a helpu busnesau i ffynnu

Ar wahân i'r rhestr drefn, bydd y data a'r sylwadau ehangach yr ydym wedi eu casglu yn yr ail gyfnod hwn ar gael i Aelodau i'w cynorthwyo i benderfynu beth i'w flaenoriaethu yn y Cyngor newydd.

I ddychwelyd at fater lleihau cymhlethdodau, dylem ddefnyddio'r meysydd blaenoriaeth hyn fel sail i'n **holl** amcanion corfforaethol, fel bod gennym un safbwynt cyson i'n cymunedau, partneriaid a'n staff. Gan ein bod mewn blwyddyn etholiad, mae'n hanfodol fod y weinyddiaeth newydd yn gallu gwneud y penderfyniad terfynol ar yr amcanion hyn; fe allant fod yn dymuno addasu neu newid unrhyw rai ohonynt. Felly er bod angen i ni gyhoeddi ein hamcanion Lles cyn diwedd Mawrth er mwyn cwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth, fe ddylem eu hystyried i bob pwrpas fel amcanion 'drafft' hyd nes y byddant yn cael eu hadolygu gan y Cyngor newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gall yr amcanion hyn wedyn fynd ymlaen i'r weinyddiaeth newydd a all eu defnyddio i benderfynu beth fydd Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ei Amcanion Lles a'i amcanion gwella. Dylai'r broses hon ein harwain at set unigol o amcanion corfforaethol a dyma i bob pwrpas fydd Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor, a bydd yn cwrdd â'n holl ofynion deddfwriaethol.

Dyma'r broses y dylem ei dilyn:

- Ffurfio Cyngor newydd - Mai 2017
- Gweithdy'r Cyngor yn penderfynu ar set newydd o flaenoriaethau, wedi eu seilio ar amcanion drafft - Gorffennaf 2017.

- Caiff y rhain eu profi gyda'r cyhoedd drwy ymgynghoriad – Awst a Medi 2017
- Y Cyngor Llawn yn cytuno a chyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol ac amcanion Lles - Hydref 2017

Bydd gan y chwech o amcanion hyn swyddogaeth arall hefyd. Bydd yr asesiad o'r angen a'r dadansoddiad data y maent wedi eu seilio arnynt hefyd yn cael eu defnyddio gan y BGC i ddatblygu ei Gynllun Lles. Felly, mae'n debygol y bydd un neu holl flaenoriaethau'r BGC yn cyd-fynd â blaenoriaethau drafft y Cyngor, ond fel rhan o'i friff sector cyhoeddus ehangach. Fel partner allweddol ar y BGC, bydd angen i'r Cyngor gytuno ar gynllun Lles y BGC yn ogystal â'i Gynllun Corfforaethol ei hun. Felly bydd blaenoriaethau'r BGC (fydd ar ffurf drafft ar y pwynt hwn) hefyd yn mynd gerbron y Cyngor llawn fis Hydref 2017. Erbyn hynny, dylai bod gennym ddarlun clir o'r hyn mae'r Cyngor eisiau ei gyflawni yn ystod oes pum mlynedd y Cynllun Corfforaethol yn ogystal â'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni mewn partneriaeth â'n partneriaid sector cyhoeddus yn ystod yr un cyfnod.

Yn olaf, er mwyn egluro ein hymagwedd i'n dinasyddion ac i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, rydym wedi datblygu 'Datganiad Lles', a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ochr yn ochr â'n hamcanion Lles. Er gwybodaeth, mae wedi ei atodi i'r datganiad hwn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gan y Cyngor nod tymor hir i ymgysylltu'n effeithiol gyda'i gymunedau; bydd y model arfaethedig yn cefnogi hyn. Yn ogystal, bydd y cynnig yn galluogi'r Cyngor i ddiwallu gofynion deddfwriaeth newydd ac o bosib dylanwadu ar y modd y gweithredir y ddeddfwriaeth honno.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol wedi eu nodi ar gyfer unrhyw Wasanaeth. Bydd unrhyw gamau gweithredu arfaethedig a gytunir fel rhan o'r cynllun corfforaethol newydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Les a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae'r blaenoriaethau newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar wytnwch y gymuned a sut y gallwn lunio rôl newydd i'r cyngor fel hyrwyddwr. Rydym yn hyderus y bydd y blaenoriaethau newydd arfaethedig yn annog ymagweddau gwahanol i atal problemau rhag codi. Rydym yn ystyried rôl y CDLl a sut gall y CDLl a'r cynllun corfforaethol newydd fod yn fwy integredig.

Yn gyfan gwbl mae'r effaith ar y 7 amcan o ran lles yn bennaf yn gadarnhaol. Mae angen mwy o wybodaeth arnom i benderfynu'r effaith ar Gymru fwy cyfartal. Mae posibilrwydd o ganlyniadau negyddol ar rai nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn a dylid ymdrin â'r rhain a'u rheoli er mwyn eu hatal rhag digwydd. Rydym wedi canfod effaith niwtral ar yr iaith Gymraeg a diwylliant; ond mae lle i ehangu'r effaith drwy'r flaenoriaeth ddrafft digwyddiadau.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu gwneud gydag Archwilio ac eraill?**

Mae'r amcanion hyn wedi eu codi o broses ymgynghori ac ymgysylltu eang, sydd wedi cynnwys dinasyddion, gan gynnwys pobl ifanc, pobl hŷn a grwpiau anodd eu cyrraedd; Aelodau, partneriaid sector cyhoeddus a staff.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd rhaid ystyried goblygiadau cyllido unrhyw gynigion neu gamau gweithredu sy'n codi o'r Cynllun Corfforaethol newydd fel rhan o Gynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor a'r prosesau cyllidebu.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg i enw da a risg o ran rheoleiddio i'r Cyngor os ydym yn methu diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Mesur Llywodraeth Leol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015